Tynnu lluniau ar gefnau

Sut i chwarae / Pwyntiau dysgu

Mewn parau, y disgyblion i gymryd eu tro i dynnu llun gweithred addysgu'r corff, siâp neu ystum ar gefnau ei gilydd.

Y disgyblion naill ai'n dewis pa weithred maent am dynnu ei llun neu dderbyn dalen adnoddau data gan yr athro.

Annog y disgyblion i dynnu llun y weithred mor araf ac mor fawr ag y gallant.

Eu partner yn ceisio dyfalu beth yw'r weithred.

Unwaith maent wedi dyfalu'n gywir, y ddau ddisgybl i berfformio'r weithred gyda'i gilydd.

Sicrhau bod y ddau ddisgybl yn cael cyfle i wneud hyn.



Addasu'r gweithgaredd

Symleiddio

- **Rhoi dewis o blith dwy weithred wrthgyferbyniol i'r disgyblion, er enghraifft, Cath Flin a Dysgl**
- **Cyfyngu ar nifer y gweithredoedd y gallai'r weithred fod**
- **Cardiau ysgogi i gynnwys lluniau / brasluniau / diagramau arnynt, ac enw'r gweithgaredd. Ystyriwch ddefnyddio'r dalennau adnoddau data o CD Rom modiwl 1**
- **Cyfyngu ar y gweithgareddau i grŵp o weithredoedd sylfaenol, er enghraifft, Rholio neu Neidio**

Herio

- **Y cardiau ysgogi i gynnwys geiriau yn unig**
- **Gallai'r gweithgareddau / gweithredoedd fod yn unrhyw rai maent wedi rhoi sylw iddynt**

Manteision Ymarfer Cysylltiedig ag Iechyd

- **Gweithgaredd ymlacio**

Cysylltiadau â'r dysgu yn y dyfodol

> **Helpu i ddatblygu symudiad a chof y disgyblion**

